

# LLAIS



Eich llais mewn iechyd  
a gofal cymdeithasol

Your voice in health  
and social care

## Adroddiad Ymgysylltu Llais Gorllewin Cymru

Medi a Hydref 2023



# Llais Gorllewin Cymru

Yr hyn yr ydym yn ei wneud:

Rydym yma i sicrhau bod eich barn a'ch profiadau yn cael eu clywed a'u defnyddio gan y bobl sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhaid i leisiau cryf pobl Cymru fod wrth wraidd system iechyd a gofal cymdeithasol effeithiol a chydgyssylltiedig ar gyfer Cymru.

Rydym yn credu mewn Cymru iachach, lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnynt, mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

## **Croeso i'r adroddiad ymgysylltu ar gyfer Llais Gorllewin Cymru ar gyfer Medi a Hydref 2023.**

Yn ystod mis Medi, mynychodd cynrychiolydd Llais gyfarfod arbennig Bwrdd Iechyd Hywel Dda lle trafodwyd yr opsiynau tir ar gyfer safle'r ysbyty newydd. Ymatebodd Llais i'r ymgynghoriad. Edrychwch ar ein hymateb ar ein gwefan. (Dolen isod)

<https://www.llaiswales.org/news-and-reports/reports/llais-west-wales-response-new-hospital-siting-public-consultation>



Ymatebodd Llais hefyd i ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i'r gwasanaeth Paediatric Acíwt ac Achosion Brys yn Sir Benfro. Edrychwch ar ein hymateb ar ein gwefan. (Dolen isod)

<https://www.llaiswales.org/news-and-reports/reports/llais-west-wales-response-paediatric-services-public-consultation>

Mynychodd Llais lawer o ddigwyddiadau yn ystod mis Medi a Hydref, ac un ohonynt oedd Fforwm Gofalwyr Sir Gaerfyrddin. Rhoddodd staff sgwrs gyda gofalwyr ynglŷn â Llais a'i waith, ac yn eu tro bwydodd y gofalwyr eu pryderon yn ôl i'r staff.

Rhestrwyd y prif bryderon fel:

- Mynediad i Feddygon Teulu
- Oedi cyn diagnosis o awtistiaeth / diffyg cefnogaeth
- Gwasanaethau deintyddol / mynediad at ddeintyddion y GIG
- Cyfathrebu gwael o fewn y GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol

Yn y llun isod gallwch weld Sian a fynychodd ddigwyddiad ymgysylltu yng Nghaerfyrddin a gynhaliwyd gan Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru lle siaradodd cynrychiolwyr Llais â phobl ynglŷn â gwaith Llais.



Cynhaliwyd digwyddiad arall a fynychwyd gennym gan Gomisiwn Bevan ac fe'i galwyd yn "Sgyrsiau cyhoeddus ar heriau gwasanaethau iechyd a gofal".

Dywedodd rhai o'r cyhoedd y gwnaethom gyfarfod â nhw:

"Roedd angen buddsoddi ar lesiant yn y gymuned ac fe allai hyn fod"

"Dywedodd rhai pobl fod angen gwneud mwy i gadw pobl allan o'r ysbyty"

Bydd comisiwn Bevan yn ysgrifennu adroddiad llawn ac yn ei gyhoeddi ar eu gwefan.

Mae pobl hefyd yn cwblhau ein harolwg ar eu profiad ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dyma rai dyfyniadau gan y cyhoedd:

"Mae'r amseroedd aros yn chwerthinllyd, aros am lawdriniaeth clun am dros 2 flynedd"

"Mae'n anodd dod o hyd i ddeintydd GIG yn lleol"

"Mae fy meddyg teulu yn wych a gallaf gael apwyntiad ar yr un diwrnod"

## Cartrefi gofal

Mae staff wedi bod yn ymweld â chartrefi gofal yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ac yn cyflwyno eu hunain i reolwyr y cartrefi gofal tra'n sôn am Llais. Rydym hefyd yn cynnal yr ymweliadau hyn ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr.

Fe wnaethon ni ymweld ag Ysbyty De Sir Benfro i siarad â chleifion sy'n derbyn gofal yn yr ysbyty; Roedd y rhan fwyaf o bobl yn hapus am eu gofal ac roedd y nyrsys yn ofalgar - bydd adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf.



## Beth sydd i ddod?

Mae tîm Ymgysylltu Llais Gorllewin Cymru wedi bod yn brysur yn trefnu digwyddiadau lle gallwn fynd i gwrdd â phobl i glywed eu barn am iechyd a gofal cymdeithasol.

Byddwn yn Neuadd y Tymbl ar 8 Tachwedd i wrando ar y cyhoedd a fydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau i wasanaethau meddygon teulu ym meddygfeydd y Tymbl a Crosshands.

Byddwn yn cyflwyno i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Benfro ar 9<sup>Tachwedd</sup> 2023.

Rydym yn bwriadu ymweld â chartrefi gofal yn ardal Sir Gaerfyrddin ar 24 Tachwedd 2023.

Bydd Llais hefyd yn bresennol yn Neuadd Goffa <sup>Talacharn ar 28</sup> Tachwedd 2023 yn gwrando ar y cyhoedd am y newidiadau arfaethedig i feddygfa gangen Talacharn.

## **Dod yn wirfoddolwr!**

Oes gennych chi ddiddordeb mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, hoffech chi wirfoddoli rhywfaint o'ch amser i wrando ar eraill? Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn wirfoddolwr neu os hoffech chi i Llais Gorllewin Cymru ddod i siarad â'ch grŵp neu'ch cymuned, cysylltwch â ni ar:

**[westwalesenquiries@llaiscymru.org](mailto:westwalesenquiries@llaiscymru.org)**


**neu**

**Ffôn 01646 697610**

**Gyda'n gilydd gallwn wella Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.**

**Dilynwch ni ar**

Facebook: @llaisWales

 (Twitter) @llaisWales